YSGOL UWCHRADD TYWYN
Ffordd yr Orsaf/Station Road, Tywyn, Gwynedd, LL36 9EU
☎ 01654 710256

Pennaeth/Head Teacher: Mrs Helen Lewis

Canllawiau ymddygiad disgyblion diogel Ysgol Uwchradd Tywyn

Rydym i gyd yn deall bod angen safon uchel iawn o ymddygiad diogel i agor yr ysgol yn ddiogel.

Bydd staff yr ysgol yn eich atgoffa i gadw`r rheolau diogelwch yn gyson. Hefyd mae posteri a chanllawiau gweledol yn yr ystafelloedd dosbarth a'r coridorau. Maen nhw yna i`ch atgoffa am y rheolau diogelwch yn gyson ac er mwyn eich cadw chi a`r staff yn saff.

Ein dymuniad ydy cadarnhau ein disgwyliadau yn glir o ran ymddygiad diogel pob disgybl. Mae`r disgwyliadau wedi eu seilio ar yr egwyddor fod gan bob dysgwr a phob aelod o staff yr hawl sylfaenol i wybod y bydd pob unigolyn arall, staff a dysgwr, yn parchu`r rheol 2 fetr ac yn ymddwyn yn ddiogel.

Mae'r isod yn ychwanegol ar ddisgwyliadau ymddygiad arferol yr ysgol.

- Mae`n bosibl ein bod yn cytuno hefo'r rheol hon neu ddim yn cytuno hefo hi. Nid yw hynny`n gwneud gwahaniaeth. Os nad ydych yn dymuno arddel yr hawl hwn nid yw`n rhoi caniatâd i chi ei dynnu oddi ar eraill. Rhaid i ddisgyblion a staff, cyn belled ag y bo modd, gadw at y rheol pellter cymdeithasol 2 fetr
- Mae gan bob blwyddyn ei barth dynodedig ei hun y tu mewn a thu allan i adeiladau'r ysgol. Rhaid i ddisgyblion aros o fewn eu parth oni bai bod aelod o staff yn cyfarwyddo fel arall.
- Pan fyddwch yn cyrraedd yr ysgol rhaid i chi fynd i mewn trwy'r fynedfa ddynodedig ar gyfer eich blwyddyn, gwisgo gorchudd wyneb a glanweithio'ch dwylo. **Mae mygydau yn orfodol ac fe'ch cynghorir i ddod â 2, rhag ofn y bydd un yn torri. Am yr hanner tymor cyntaf mae'r ysgol wedi cyflenwi masgiau newydd i ddisgyblion ac i'r rhai sydd wedi anghofio dod ag un. Nid yw hyn yn gynaliadwy ac yn yr achosion hyn cysylltir â rhieni i ddod â mwgwd i'r ysgol ar gyfer eu plentyn.**
- Ar ddiwedd y diwrnod ysgol byddwch yn gadael trwy'r un llwybr, glanweithio wrth adael.
- Os ydych yn cerdded adref, ni ddylech gerdded adref mewn grwpiau na chasglu mewn grwpiau ar y ffordd.
- Mae system un ffordd yn yr ysgol bellach. Mae`n ddisgwyl pendant i chi ddilyn y drefn un ffordd hon. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi fynd allan weithiau – hyd yn oed os ydy hi`n bwrw glaw! Cewch gadw eich cotiau hefo chi yn ystod y dydd. Rhaid gwisgo gorchudd wyneb wrth symud rhwng yr adeiladau.
- Nid oes caniatâd defnyddio`r loceri.
- Mae'r ffreutur yn cael ei ddefnyddio a darperir bwyd poeth mewn pecynnau poeth. Mae gan bob blwyddyn ei lwybr ei hun yn ôl ac ymlaen i'r ffreutur a'i ardal eistedd ei hun yn y ffreutur. Rhaid gwisgo gorchudd wyneb i fynd i mewn i'r ffreutur nes bod y disgyblion yn eistedd ac wrth adael.
- Byddwch angen ciwio i fynd i fewn i ystafell ddysgu a bydd y mannau hyn wedi eu marcio i sicrhau pellter rhwng pawb. Unwaith eto, rhaid i chi wisgo gorchudd wyneb mewn coridorau ac mewn lleoedd awyr agored cul wrth basio. Er enghraifft, rhwng y toiledau ac ystafelloedd 10 ac 11.

YSGOL UWCHRADD TYWYN
Ffordd yr Orsaf/Station Road, Tywyn, Gwynedd, LL36 9EU
☎ 01654 710256

Pennaeth/Head Teacher: Mrs Helen Lewis

- Os ydych chi'n defnyddio bws ysgol neu drên, bydd disgwyl i chi eistedd yn yr un sedd trwy gydol y daith heb symud unrhyw beth. Bydd angen i chi hefyd ddilyn canllawiau'r gyrrwr/conductor wrth adael y bws/trên yn ddiogel.
- Nid oes gennym unrhyw reolaeth dros y trefniadau trafnidiaeth. Y sefyllfa bresennol yw y bydd disgyblion sy'n byw y tu hwnt i Barmouth yn teithio ar y trên a bydd disgyblion sy'n byw rhwng Tywyn a Barmouth yn teithio ar y bysiau. Rydym yn deall y bydd bysiau a trenau cyhoeddus hefyd yn cadw at reol dwy fetr. Rhaid gwisgo gorchudd wyneb ar y bysiau.
- Mae`n debyg mai anaml iawn y bydd dysgwyr yn pesychu yn yr ysgol bellach gan y byddwch, os ydych yn pesychu yn eich cartref, angen aros adref am resymau diogelwch. Os ydych yn pesychu dylech roi eich penelin/braich dros eich ceg a throi i ffwrdd oddi wrth bawb arall.
- O oes gennych beswch newydd parhaus, gwres uchel neu rydych wedi colli synnwyr arogl a blas, ni ddylech ddod ar safle`r ysgol o gwbl.
- Mae esgus pesychu yn cael ei gyfrif yn hollol annerbyniol. Fydd esbonio ymddygiad o`r fath trwy ddweud mai joc ydy`r digwyddiad ddim yn cael ei dderbyn.
- Nid yw`n bosibl menthyg offer felly rhaid dod â`ch holl offer i`r ysgol. Gwnewch yn siwr fod gennych bensil, beiro, ffon fesur, cyfrifiannell, pensiliau lliw a ffelt, sellotape, siswrn ac ati. Ni all eich athro roi benthyg offer i chi. Fodd bynnag, mae bocs o glud ym mhob ystafell ddosbarth y gellir ei ddefnyddio ac sy'n cael ei lanhau cyn pob defnydd. Ni all eich athro roi menthyg offer i chi. Ni ddylech ddod ag unrhyw offer diangen i`r ysgol.
- Bydd llyfrau'n cael eu defnyddio ond yn cael eu gadael yn yr ystafell ddosbarth tan y wers nesaf. Dim ond pan fydd cyfnod o 72 awr ar gael lle na fydd staff na disgyblion yn cyffwrdd â'r llyfrau y bydd llyfrau'n cael eu marcio.
- Gallwch brynu offer yn yr ysgol. Os ydych am wneud hyn byddwch angen agor cyfrif a gofyn i`ch rhiant roi ychydig arian ynddo gan na fydd yr ysgol yn gallu derbyn arian.
- Caniateir i chi ddod â ffôn symudol i`r ysgol ond rhaid i chi ei roi mewn bag, ei roi i'r athro dosbarth bob bore a bydd yn cael ei ddychwelyd yn ystod gwers olaf y dydd. Os daw disgyblion â ffôn ac na chaiff ei gyflwyno a'i weld yn ddiweddarach gan aelod o staff, **bydd yn cael ei atafaelu tan ddiwedd y diwrnod ysgol. Bydd gofyn i Riant/Gwarcheidwad gasglu'r ffôn**.
- Mae egwyliau toiled yn ystod y diwrnod ysgol. Ni ddylid defnyddio toiledau amser egwyl neu amser cinio. Mewn argyfwng, siaradwch â'r athro. Peidiwch ag ymgynnull fel grŵp y tu allan i`r toiledau.

Ni fydd yr ysgol yn gallu caniatáu i unrhyw ddisgybl sy`n mynnu torri`r rheolau uchod fynychu`r ysgol na defnyddio bws ysgol am weddill y tymor hwn.